

Cyfarfod Bwrdd AIA IGDC – Cyhoeddus Heb eu Cadarnhau

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig (SHA) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a gynhaliwyd ddydd Llun 2 Chwefror 2026 fel cyfarfod rhithwir a ddarllledwyd yn fyw dros Zoom.

 10:00 –14:30

 2 Chwefror 2026

 ZOOM

Aelodau'n Bresennol	Llythrennau Cyntaf	Teitl	Sefydliad
Ruth Glazzard	RG	Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd	IGDC
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Paul Evans	PE	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd – Undeb Llafur	IGDC
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol	IGDC
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	IGDC
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	IGDC
Marilyn Bryan Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Marian Wyn Jones	MWJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol	IGDC
Claire Osmundsen-Little	COL	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	IGDC
David Selway	DS	Aelod Annibynnol	IGDC
Helen Thomas	HT	Prif Swyddog Gweithredol	IGDC

Yn bresennol	Llythrennau Cyntaf	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Samantha Morgan	SM	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC

Cyfarfod Bwrdd SHA IGDC 2 Chwefror 2026 – Lluniwyd y cofnodion gyda chymorth Co-Pilot.

Gareth John (eitem 3.1 yn unig)	GJ	Pennaeth Cyflenwi Gwybodaeth	IGDC
---------------------------------	----	------------------------------	------

Yn arsylwi	Teitl	Sefydliad
Julie Robinson	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC
Laura Tolley	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Sam Hall	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl.	IGDC

Acronymau			
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig
CEO	Prif Swyddog Gweithredol	Abl	Achos Busnes Llawn
AA	Aelod Annibynnol	CTCI	Cynllun Tymor Canolig Integredig
LIC	Llywodraeth Cymru	DG&S	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
A&A	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	PDC	Y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	POD	Pobl a Datblygu Sefydliadol
INPS	In Practice Systems	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
NTA	Y Saerniaeth Darged Genedlaethol	MT	Meddyg Teulu
RISP	Rhaglen y System Gwybodeg Radioleg	LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy
DM	Digwyddiad Mawr	Ch1, Ch2...	Chwarter 1, Chwarter 2...
AED	Adeiladu Ein Dyfodol	BIPCAF	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
CLGau	Cytundebau Lefel Gwasanaeth	EHR	Cofnod Iechyd Electronig
DDaT	Digidol, Data a Thechnoleg	AChA	Amcanion a Chanlyniadau Allweddol
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	EPS	Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol	AI	Deallusrwydd Artiffisial

Cyfarfod Bwrdd AIA IGDC 2 Chwefror 2026 – Cynorthwywyd gan Copilot

GDaD	Digidol a Data'r Llywodraeth	RATS	Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
LPF	Fforwm Partneriaeth Lleol	WPOCT	Profion Pwynt Gofal Cymru
MoU	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	WIS	System Imiwneiddio Cymru
RADIS	System Gwybodaeth Radioleg Cymru		

Rhif yr Eitem	Manylion yr Eitem	Canlyniad	Cam Gweithred u
---------------	-------------------	-----------	-----------------

RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL

1.1	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb yn ddwyieithog i gyfarfod Bwrdd AIA IGDC a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw dros Zoom. Yn ogystal, byddai'r recordiad ar gael drwy wefan IGDC ar gyfer unrhyw unigolion na fyddent yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod byw. Darparodd y Cadeirydd hysbysiadau cadw tŷ ynghylch agweddau technegol ffrydio byw'r cyfarfod, y seibiannau arfaethedig, a'r defnydd o'r agenda caniatâd ar gyfer eitemau 2.1 i 2.7.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	Ymddiheuriadau am Absenoldeb Sam Hall, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	Ddim yn Berthnasol	Dim i'w nodi
1.3	Datganiadau o Fuddiant Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Ddim yn Berthnasol	Dim i'w nodi

RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO

2.1	Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Bwrdd 27 Tachwedd 2025 i. Materion yn Codi Cymeradwywyd cofnodion 27 Tachwedd 2025. Gellir gwylio cyfarfod y Bwrdd yn llawn isod neu drwy ddilyn y ddolen yn y teitl.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
-----	--	--------------	--------------



Penderfynodd y Bwrdd:
GYMERADWYO cofnodion Cyfarfod Bwrdd 27 Tachwedd 2025.

2.2	Cofnod Gweithredu (1) Roedd un weithred gyhoeddus ar y cofnod a oedd ar y gweill. Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Cofnod Gweithredu.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	Blaengynllun Gwaith Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Blaengynllun Gwaith.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.4	Dull Adrodd Diwedd Blwyddyn Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Dull Adrodd Diwedd Blwyddyn	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.5	Asesiad a Chynllun Risg Addasu IGDC Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Asesiad a'r Cynllun Risg Addasu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.6	Adroddiad Bioamrywiaeth 2022-2025 Penderfynodd y Bwrdd: NODI Adroddiad Bioamrywiaeth 2022-2025	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.7	Adnewyddu Rhyddhau Technium 2 Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO'R Adnewyddiad Rhyddhau Technium 2	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

PRIF AGENDA

Cyfarfod Bwrdd AIA IGDC 2 Chwefror 2026 – Cynorthwywyd gan Copilot

I'W DRAFOD

3.1	Cyflwyniad Gwranddo a Dysgu a Rennir Warws Data IGDC: dadansoddi a data ar gyfer ymchwil ac arloesi Cyflwynodd Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (RH) y cyflwyniad ar Warws Data IGDC: dadansoddiad a data ar gyfer ymchwil ac arloesi gan roi cefndir byr, ac roedd yng nghwmni Gareth John, Pennaeth Cyflwyno Gwybodaeth a gyflwynodd set o sleidiau. - Mae gwasanaethau gwybodaeth IGDC yn cwmpasu caffael/warws data (setiau data cenedlaethol a phorthiannau gweithredol fel diagnosteg a fferyllfa ysbytai) a gwasanaethau dadansoddol (e.e. Gwerth mewn lechyd, cancer) gan gynnwys maes ffocws Ymchwil ac Arloesi. - Mae data agored a Mapiau Iechyd Cymru yn darparu miloedd o ddangosyddion ar gyfer dadansoddi dichonoldeb ac anghydraddoldeb daearyddol. - Amgylchedd Data Cydweithredol Diogel (SCDE): e.e. archwiliodd Prosiect IDEATE (a gomisiynwyd gan Pfizer) gytundebau yn seiliedig ar ganlyniadau, data ffug-ddienw yn unig; dadansoddiad in situ. Nid oes unrhyw allanfa ddata heb gymeradwyaeth. - Cymorth SAIL Trydydd Parti Dibynadwy (TTP); mae IGDC yn prosesu cydrannau demograffig, gan alluogi ymchwil wrth ddiogelu preifatrwydd. - Enghreifftiau o gymorth astudio: Dilyniant carfan Caerffili. Canlyniadau treialon canfod cancer cynnar yn cael eu nodi, rheolyddion cyfatebol ar gyfer gwarchodaeth COVID, dadansoddiadau ar lefel aelwydydd ar gyfer risg trosglwyddo COVID ar ôl digwyddiad. - Cyfleoedd treialon digidol (Canfod, Recriwtio, Olrhain). Defnydd dros dro o ddata SAIL GP. - Rhaglenni peilot NLP: echdynnu gwybodaeth epilepsi o lythyrau clinig. Disgwylir i NDR (platfform cwmwl Google) gyflymu NLP/ML gyda chyfrifiadura graddadwy. Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol yn y drafodaeth. - Sut bydd modelu rhagfynegol a segmentu yn cael eu cymhwyso (e.e. targedu bylchau disgwyliad oes iechyd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd). Myfyriodd GJ ar ddysgu PRISM, ond roedd ymyrraeth, eglurder a gweithredu yn hanfodol. Dylai dadansoddeg ddechrau o ymyriadau a blaenoriaethu wedi'u diffinio ac nid dim ond graddio risg. - Tynnwyd sylw at y risgiau i ymddiriedaeth y cyhoedd a gofynnwyd am fanylion pellach ynghylch y dulliau diogelu preifatrwydd ac achosion ansicrwydd y cyhoedd.	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi
-----	--	-------------------------	--------------

Sicrhawyd y Bwrdd fod mynediad at wybodaeth bersonol datgelu yn brin. Dilyniwyd fframweithiau Llywodraethu Gwybodaeth, ac roedd cymeradwyaethau moeseg yn rhagofynion annibynnol. Mae'r tîm Ymchwil a Gwybodaeth bellach yn symleiddio penderfyniadau fel y gall dadansoddwyr ganolbwyntio ar gyflawni.

- Mae'r gwaith yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymuned drwy Ddylunio dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol, gyda philer atal a rheoli iechyd y boblogaeth. Pwysleisiwyd bod offer NDR bellach yn galluogi haenu a gweithrediad cyflymach ar gyfer gofal rhagweladwy.
- Pwysleisiwyd ymhellach 'grymuso cleifion' i reoli eu hiechyd eu hunain drwy'r Canfod, Recriwtio ac Orlhain. Mae hyn yn rhoi cyfle i gleifion gymryd rhan mewn treialon. Mae tystiolaeth gref yn dangos bod cleifion sy'n cymryd rhan mewn treialon yn cael canlyniadau gwell.

Penderfynodd y Bwrdd:

DDERBYN a THRAFOD Warws Data IGDC: dadansoddiad a data ar gyfer ymchwil ac arloesi.

RHAN 4 - I'W HADOLYGU

4.1

Adroddiad y Cadeirydd Dros Dro a'r Is-gadeirydd Dros Dro

Mae'r trefniadau dros dro yn parhau ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Nodwyd y paratodau ar gyfer cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a diolchwyd i'r timau am eu gwaith. Ni chodwyd unrhyw eitemau ychwanegol.

Penderfynodd y Bwrdd:

DDERBYN cynnwys adroddiad y Cadeirydd dros dro a'r Is-gadeirydd Dros Dro.

Derbyniwyd a Thrafodwyd

Dim i'w nodi

4.2

Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Cyflwynodd Helen Thomas (HT), Prif Swyddog Gweithredol, adroddiad y Prif Weithredwr, gan ddarparu'r uchafbwyntiau canlynol:

- Uwchgyfeirio: derbyniwyd llythyr ym mis Ionawr yn cadarnhau statws lefel 3 (monitro gwell) parhaus ar gyfer cyflawni'r rhaglen.
- Ap GIG Cymru: o fis Rhagfyr, roedd atgyfeiriadau newydd yn weladwy ar draws sefydliadau; roedd apwyntiadau cleifion allanol newydd gydag ymgynghorwyr yn weladwy. Roedd gwaith pellach ar yr ap wedi'i gynllunio.
- Peiriant Chwilio Ecosia: Yn ddiweddar, mae IGDC wedi cymeradwyo'r cynnig i symud ei beiriant chwilio diodyn ar bob dyfais a reolir i Ecosia, sy'n rhan o ymrwymiad parhaus IGDC i gynaliadwyedd ac arloesedd digidol.
- Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol: Cymeradwywyd

Derbyniwyd a Thrafodwyd

Dim i'w nodi

hyn, bydd IGDC yn manteisio ar rôl genedlaethol i gefnogi cynhwysiant, yn unol ag achrediad trwy Gymunedau Digidol Cymru.

Penderfynodd y Bwrdd:

DDERBYN cynnwys adroddiad y Prif Weithredwr.

RHAN 5 – EITEMAU STRATEGOL

5.1

Adroddiad Grŵp Sicrwydd Strategaeth

Cyflwynodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, yr adroddiad: Sefydlwyd y Grŵp Sicrwydd Strategaeth yn ddiweddar i ddod â gwell trefn a goruchwyliaeth i is-strategaethau niferus y sefydliad.

Cyflwynwyd pum diweddariad strategaeth:

- **Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol** – cafodd hon ei hadnewyddu a'i chyflwyno i'w chymeradwyo'n ffurfiol. Roedd trafodaeth fanylach wedi'i threfnu ar gyfer yn ddiweddarach ar yr agenda.
- **Strategaeth Amgylcheddol** – roedd drafftio ar y gweill; roedd y grŵp yn ystyried a yw'r fframwaith yn darparu digon o sicrwydd heb strategaeth lawn.
- **Strategaeth Sgiliau Dwyieithog** – Eglurwyd y dull o gynyddu gallu yn y Gymraeg o 16% i 20% (lefel 1 i lefel 2), gan ganolbwyntio ar 'brynu neu adeiladu', uwchsgilio staff a chynnwys ystyriaethau'r iaith Gymraeg mewn recriwtio. Roedd y strategaeth yn cael ei hadnewyddu cyn yr ymgysylltiad sydd ar ddod ynghylch Safonau'r Gymraeg ac roedd lefelau uchelgais yn cael eu hadolygu.
- **Strategaeth Ymchwil ac Arloesi** – mae'r gwaith drafftio'n parhau gydag ymgysylltiad mewnol cryf; disgwylir iddo gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth.
- **Strategaeth Ansawdd** – gwnaed penderfyniad i beidio â chynhyrchu strategaeth lawn, gan fod y Fframwaith Ansawdd wedi'i ystyried yn ddigonol.

Nodwyd dau adroddiad blynyddol:

- Strategaeth Gyfathrebu
- Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes
- Roedd gwaith strategaeth hirdymor (20 amcan strategol a mesurau perfformiad) yn mynd rhagddo'n dda, gyda chymeradwyaeth wedi'i chynllunio ar gyfer mis Mawrth. Diweddarir yr is-strategaethau bob tair blynedd. Roedd gwaith ar y gweill i leihau "traffig strategol" a gwella crynodeb adroddiadau.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y canlynol:

Mynegwyd pryder ynghylch digonolrwydd ymgysylltiad allanol, yn enwedig ar gyfer y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. Cydnabuwyd yr amrywiad yn y lefelau ymgysylltu a thynnwyd

Nodwyd

Dim i'w nodi

sylw at y gwaith ar lyfryn strategaeth i lywio cysondeb.

Nododd yr aelodau fod y strategaeth Ymchwil ac Arloesi mewn sefyllfa wahanol o'i gymharu â thair blynedd yn ôl ac roedd yn awyddus i gryfhau cyfeiriad strategol a mecanweithiau sicrwydd. Matthew Wintle sy'n cadeirio'r pwyllgor perthnasol ar ran IGDC, gan ddod â chefnidir ac arbenigedd gwerthfawr. Mae gwaith ar y gweill i ddeall y ffordd orau o gael gwerth o'r strategaeth, gan gynnwys nodi'r pwyntiau mynediad sefydliadol priodol ar gyfer cael mynediad at amgylcheddau data diogel a chefnogi anghenion gwasanaeth ehangach. Yn ogystal, mae'r strategaeth Ymchwil ac Arloesi yn nodi cyfleoedd sylweddol i'r GIG, yn enwedig drwy fwy o ymgysylltiad cydweithredol y tu hwnt i Gymru. Mae tystiolaeth yn dangos canlyniadau gwell i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol ac roedd awydd i ddenu mwy o dreialon clinigol i Gymru. Pwysleisiodd cynadleddau diweddar ledled y DU gryfder Cymru o ran darparu setiau data integredig i gefnogi gweithgareddau ymchwil, gan gynnig mantais gystadleuol.

Penderfynodd y Bwrdd:

NODI Adroddiad y Grŵp Sicrwydd Strategaeth a CHYMERADWYO'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

5.2

Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026/29

Cyflwynodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, ddiweddariad Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026/29 a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd datblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn mynd rhagddo'n dda, gyda chyfranogiad sylweddol gan uwch arweinwyr.
- Adolygwyd portffolios a chenadaethau, gyda gwelliant yn y cyd-fynd â mapiau ffyrdd sy'n seiliedig ar gynnyrch.
- Roedd y cynllun wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynllunio Llywodraeth Cymru.
- Trefnwyd sesiwn datblygu ymhen tair wythnos; byddai'r Cynllun Tymor Canolig Integredig terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth.
- Risg allweddol: nid oedd y llythyr cylch gorchwyl wedi dod i law eto a allai olygu bod angen diwygiadau hwyr.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y canlynol:-

- Heriodd y Cadeirydd pam nad oedd y llythyr wedi'i gyhoeddi eto, o ystyried nad oedd disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol.
- Adroddodd IE fod yr oedi oherwydd prosesau mewnol y llywodraeth ac adolygiad gweinidogol, er bod swyddogion wedi cael gwybod ei fod i'w ddisgwyl yn fuan.
- Codwyd pryderon ynghylch amseriad llythyrau'r Swyddog Atebol (AO), sy'n ddyledus ganol mis Chwefror, gan fod y

Nodwyd

Dim i'w nodi

	rhain yn dibynnu ar eglurder o fewn y cylch gorchwyl a'r llythyr dyrannu. • Cadarnhaodd HT fod deialog barhaus â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a oedd yn paratoi llythyrau cylch gorchwyl ar gyfer pob sefydliad cenedlaethol ar yr un pryd. • Mynegodd uwch arweinwyr hyder fod cynnwys y llythyr cylch gorchwyl yn cyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan fod cydweithio cryf wedi bod ar flaenoriaethau. Penderfynodd y Bwrdd: NODI CTCI 2026/29		
5.3	Diweddariad Saernïaeth Darged Genedlaethol Rhoddwyd diweddariad ar y Saernïaeth Darged Genedlaethol (NTA), rhaglen strategol sy'n sefydlu'r bensaernïaeth ddigidol hirdymor ar gyfer GIG Cymru. • Pedair elfen graidd y gwaith: 1. Cyd-ddylunio saernïaeth darged y dyfodol 2. Mapiau ffyrdd o'r cyflwr presennol i'r cyflwr targed 3. Cynllun buddsoddi strategol 4. Cymuned ymarfer llywodraethu a saernïaeth broffesiynol. • Roedd ymgysylltiad cryf gan bob sefydliad ar draws GIG Cymru; gyda chynnydd sylweddol ar ddrafftio saernïaeth a mapiau ffyrdd. • Mae'r camau nesaf yn cynnwys cwblhau'r fersiwn a gyd-gynlluniwyd, cwblhau'r cynllun buddsoddi a pharatoi cynllun gwaith 2026-27. Trafododd y Bwrdd y canlynol: Cefnogwyd y gwaith gan ymgynghorwyr allanol ac ymgysylltiad helaeth â'r system. Bydd y cynhyrchion i'w cyflawni yn cynnwys cyflwyniad strategol lefel uchel a dogfen ategol fanwl yn amlinellu cyfyngiadau, gofynion dilyniannu ac ystyriaethau buddsoddi. Cynghorwyd y Bwrdd fod rhai elfennau o'r rhaglen (e.e. disodli LIMS 3) wedi'u cloi o ran amser gan gylchoedd cytundebol. Gall buddsoddiadau cynnar gynnwys moderneiddio dyfeisiau, parodrwyd ar gyfer mudo data ac adeiladu gallu proffesiynol o fewn y ddisgyblaeth saernïaeth. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd nodi manteision systemau cynnar, gweladwy i gefnogi hyder, er gwaethaf natur hirdymor y rhaglen.	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

Cydnabuwyd y bydd symud o egwyddorion lefel uchel i benderfyniadau pendant, yn enwedig lle mae'n rhaid rhoi'r gorau i systemau etifeddol, yn gofyn am reoli perthnasodd a disgwyliadau systemau yn ofalus.

Croesawodd y Bwrdd y sylfaen dystiolaeth gref sy'n dod i'r amlwg o fapio gallu busnes a modelu saernïaeth genedlaethol.

Nododd yr aelodau fod dysgu cymharol o wledydd eraill y DU a systemau rhyngwladol yn cefnogi'r cyfeiriad strategol presennol. Tynnodd DS sylw at ddiddordeb yn y map ffordd sydd ar ddod a'i achos busnes cysylltiedig, gan geisio eglurder ar yr amserlenni disgwylidig. Cadarnhaodd IE fod ymgynghorydd allanol yn cefnogi datblygiad ar lefel uchel. Bydd angen achos busnes ar gyfer y genhedlaeth nesaf o LIMS, er nad dogfen gymeradwyo ffurfiol ar hyn o bryd.

Mae gweithgarwch sylweddol o ran mudo data yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

Pwysleisiwyd, o ystyried y cyd-destun buddsoddi heriol, y byddai symleiddio'r saernïaeth yn fuddiol.

Penderfynodd y Bwrdd:

NODI'R diweddariad Saernïaeth Darged Genedlaethol ar gyfer SICRWYDD.

5.4

Teipoleg Rhaglenni a Llawlyfr Gweithredu IGDC

Cyflwynodd IE yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Teipoleg Rhaglenni a Llawlyfr Chwarae IGDC ategol a fwriadwyd i ddod â chysondeb a thryloywder i ddiffiniad a llywodraethiant rhaglenni.

- Bydd y deipoleg yn cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ddulliau cyflawni a llwybrau masnachol.
- Bydd yn darparu canllawiau cliriach ar strwythuro rhaglenni a mentrau, alinio llywodraethu, a llunio dewisiadau caffael.
- Pwysleisiodd HT werth y gwaith hwn o ran magu hyder yn y ddarpariaeth, yn enwedig yng nghyd-destun statws monitro gwell y sefydliad.
- Roedd wedi cael ei rannu'n eang gyda rhanddeiliaid ac wedi cael derbyniad da. Y cam nesaf yw adolygu drwy lywodraethu DDaT cenedlaethol.

Trafododd yr aelodau gymhlethdod tirwedd trawsnewid digidol ledled Cymru a sut y gallai canfyddiadau sydd ar ddod Archwilio Cymru gefnogi dealltwriaeth o'r cymhlethdod hwn. Gallai adolygiad Archwilio Cymru helpu i esbonio anghydnawseddau rhwng canfyddiadau a realiti heriau cyflenwi digidol.

Penderfynodd y Bwrdd:

NODI'R Deipoleg Rhaglenni a Llawlyfr Chwarae IGDC

Nodwyd

Dim i'w nodi

RHAN 6 – LLYWODRAETHU, RISG, PERFFORMIAD A SICRWYDD

6.1	Diweddariad Uwchgyfeirio IGDC Cyflwynodd CD ddiweddariad ar statws Uwchgyfeirio IGDC, a'r camau a gymerwyd ers symud o fonitro arferol Lefel 1 i fonitro uwch Lefel 3 ym mis Mawrth. Roedd y cynnydd yn gysylltiedig yn benodol â chyflawni rhaglenni mawr. Y gweithgareddau allweddol a'r cynnydd: • Cynhaliwyd cyfarfod IQPD ar 3 Rhagfyr lle adolygodd Llywodraeth Cymru'r cynllun uwchgyfeirio. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ar ap y GIG a gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Iechyd. • Allan o 40 o gerrig milltir a oedd i fod i gael eu cyflawni rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr, roedd 39 wedi'u cyflawni, gyda phedair wedi'u cwblhau'n hwyrach na'r dyddiad targed gwreiddiol. • Gohiriwyd y Cofnod Gofal Integredig (OBC) tan ddiwedd mis Mawrth a chafodd ei nodi yn y Cofnod Gofal Integredig ym mis Rhagfyr. • Roedd disgwyl i CaNISC gael ei symud i fodd archif – mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror yn dilyn cwblhau gweithgaredd archwilio Canser Cenedlaethol. • Pwysleisiodd CD yr angen i adeiladu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer canfyddiadau rhanddeiliaid – gan symud o adborth anecdotaidd i fetrigau meintiol – gan nodi metrigau cadarnhaol y ddesg wasanaeth a digwyddiadau llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar ddata. • Roedd sesiwn Datblygu'r Bwrdd wedi digwydd a oedd yn myfyrio ar uwchgyfeirio. Pwysleisiodd aelodau'r bwrdd y cysylltiad rhwng cyflawni rhaglenni mawr fel LIMS a RISP yn llwyddiannus a gwell hyder y cyhoedd. Cytunwyd bod canfyddiad yn gysyniad anodd i'w fesur, ond roedd gan y sefydliad gynlluniau ar sut i fwrw ymlaen â hyn, yn ogystal â hynny byddai adolygiad diweddar Archwilio Cymru ar Drawsnewid Digidol o fewn pob Bwrdd Iechyd ledled Cymru yn rhoi cipolwg ar hyn. Tynnodd HT sylw at y ffaith y byddai 2026 yn flwyddyn arwyddocaol o ran cyflawni rhaglenni diagnosteg a seilwaith data cenedlaethol. Penderfynodd y Bwrdd: NODI Diweddariad Uwchgyfeirio IGDC ar gyfer SICRWYDD	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi
6.2	Adroddiad Cyllid Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little (COL), Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, set o sleidiau gan dynnu sylw at sefyllfa ariannol IGDC: • Roedd y sefydliad yn rhagweld cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, gyda thanwariant refeniw bach	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

wedi'i lywio gan swyddi gwag yn gwrthbwyso pwysau'r rhaglen.

- Disgwylid cyflawni £3.4 o arbedion cylchol.
- Mae gwariant cyfalaf yn parhau i fod wedi'i bwysoli tuag at y chwarter olaf, ond roedd hyder wedi cynyddu oherwydd derbyn anfonebau gan fyrdau iechyd ar gyfer taliadau rhaglenni.

Nododd yr aelodau'r cyflawniadau sylweddol o ran cyflymu mudo systemau meddygon teulu yn dilyn diddymu'r cyflenwyr.

Rhoddwyd eglurhad ar y sefyllfa TAW mewn perthynas â thrwyddedu Microsoft:

- Mae £852k yn ymwneud â'r garfan gyntaf a gadarnhawyd
- Mae £2.8m yn amcangyfrif o amlygiad tymor hwy yn amodol ar ymgysylltu parhaus â CThEM

Amlinellwyd cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan gydnabod y ddibyniaeth ar dderbyn y llythyr cylch gwaith a dyrannu mewn pryd.

Cynghorwyd y Bwrdd fod y gyllideb gyffredinol ar gyfer 2026-27 yn parhau i fod yn heriol oherwydd buddsoddiad newydd lleiaf posibl a chyfyngiadau chwyddiant. Disgwylid y byddai gwariant mwy cyfartal drwy gydol blwyddyn ariannol 2026-27, gyda nifer fawr o raglenni'n dod i ben yng nghanol y flwyddyn.

Penderfynodd y Bwrdd:

NODI'R Adroddiad Ariannol

6.3

Adroddiad Caffael Strategol

Cyflwynodd CO-L un papur Dyfarnu Contract: -

- Cytundeb Cofrestru Gweinydd a Chwmwl Microsoft ("SCE") P159.07
Mae'r caffaeliad yn cyfuno trwyddedau Windows ac SQL Server yn un model tanysgrifio, gan gynnwys Sicrwydd Meddalwedd. Mae'r dull hwn yn cefnogi mudo i'r cwmwl yn y dyfodol ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â thrwyddedau.

Nododd yr aelodau fod model trwyddedu Microsoft yn golygu bod y llwybr hwn yn angenrheidiol i bob pwrpas.

Mae cydlynu cenedlaethol ar draws GIG Cymru yn parhau, gan gynnwys trafodaethau Cytundeb Menter ac archwilio disgowntio Azure a Rennir.

Penderfynodd y Bwrdd:

GYMERADWYO'R canlynol

- Cytundeb Cofrestru Gweinydd a Chwmwl Microsoft ("SCE") P159.07

Cymeradwywyd

Dim i'w nodi

6.4

Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Cyflwynodd CD adroddiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol gan roi

Derbyniwyd a Thrafodwyd

Dim i'w nodi

gwybod bod gan Gofrestr Risg Gorfforaethol IGDC 17 o risgiau ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac roedd 15 ohonynt wedi'u manylu yn yr adroddiad a dwy risg breifat a ystyriwyd ym mhob Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol.

Tynnodd CD sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:-

Ychwanegwyd un risg newydd:

- **Risg IGDC0352:** Cyflawni Cerrig Milltir 2025-2026. Mae'r risg yn adlewyrchu'r sefyllfa ynghylch ceisiadau ychwanegol a'r pwysau o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd wedi deillio o hynny. Darparodd IE fanylion pellach, cyfres o fentrau dan arweiniad gweinidogion a cheisiadau gan y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r ap. Roedd y costau wedi cael eu hamsugno. Mae'n debyg y byddai'r 100 o gerrig milltir ychwanegol eleni yn arwain at ddadflaenoriaethu cerrig milltir eraill/eu trosglwyddo i'r flwyddyn nesaf.

IGDC0298 Oedi wrth Weithredu WLIMS 2: Mae'r amserlenni'n parhau i fod yn dynn ond roedd gan y Bwrdd weledigaeth dda o ran graddfa'r gweithredu.

IGDC0320 / IGDC0263 Rhoddodd HT ac RH ddiweddariad ar y cyfarfod lefel uwch cadarnhaol ynghylch heriau llywodraethu gwybodaeth a rhannu data, gydag arweinyddiaeth draws-system bellach wedi'i halinio ar yr angen am rannu data diogel a moesegol.

IGDC333 gweithredu gofal dwys – diweddariad ar ohebiaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r camau sydd eu hangen i sicrhau cadarnhad o'r dull tymor hwy.

Ni chafodd unrhyw risgiau eu dileu na'u hisraddio ers y cyfarfod diwethaf.

Penderfynodd y Bwrdd:

DDERBYN y Gofrestr Risg Gorfforaethol

6.5

Adroddiad Pobl a Diwylliant

Cyflwynodd Samantha Morgan, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (SM), yr Adroddiad Pobl a Diwylliant a oedd yn cynnwys y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol a drafodwyd yn flaenorol o dan eitem 5.1.

Rhoddodd SM yr uchafbwyntiau canlynol:

- Adeiladwyd y strategaeth ar chwe philer: Denu/cadw; sgiliau ar gyfer y dyfodol, cydweithio ac ymgysylltu, iechyd a diwylliant cynhwysol; perfformiad uchel drwy arweinyddiaeth/reolaeth; modelu'r gweithlu.
- Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar arweinyddiaeth systemau a datblygu proffesiwn digidol ledled Cymru, gyda chymorth y Bwrdd Gallu Gweithlu sydd newydd ei ffurfio.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cryfhau cydweithio traws-

Cymeradwywyd a nodwyd

Dim i'w nodi

	system a chynllunio gweithlu strategol a fydd yn mynd i'r afael â gwendidau o fewn y system. Canmolodd y Bwrdd y tîm ar y strategaeth, am yr eglurder, yr uchelgais a'r canlyniadau mesuradwy (CAMPUS). Roedd cael amcanion clir, mesuradwy yn faes y mae Archwilio Cymru wedi rhoi adborth arno yn flaenorol yn dilyn adolygiadau. Adroddiad Pobl a Diwylliant – roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau cyflawni presennol, gan gynnwys y Fframwaith Diwylliant newydd, ymddygiadau gwell sy'n seiliedig ar werthoedd a chanfyddiadau sicrwydd allanol cadarnhaol. Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Adroddiad Pobl a Diwylliant a CHYMERADWYO'R Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi'i hadnewyddu		
6.6	Adroddiad Perfformiad Cyflwynodd C-OL yr Adroddiad Perfformiad, gan dynnu sylw at yr eitemau canlynol:- Rhaglenni mawr: ○ Bydd WLIMS2 yn symud i chwarter 1 y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd pwysau cyflenwi. ○ Mae RISP yn parhau i symud ymlaen yn dda, gyda rhaglenni lansio llwyddiannus yn ddiweddar. ○ Mae cerrig milltir Ap GIG Cymru wedi'u cyflawni fel yr amserlen. Mae cydymffurfiaeth â Rhyddid Gwybodaeth wedi gwella'n sylweddol, gan gyrraedd 100% ym mis Rhagfyr. Gweithrediadau gwasanaeth: ○ Cynyddodd cyfraddau gadael galwadau dros dro oherwydd gwyliau tymhorol a salwch. ○ Mae cyfraddau atgyweirio rheng gyntaf a chydymffurfiaeth ag arfarniadau yn parhau i fod islaw'r targed ond maent yn cael sylw. Yr hyder cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig yw 78% gyda disgwyl i fwy na 350 o gerrig milltir gael eu cwblhau – gan ragori ar y cyflwyniad gwreiddiol. Penderfynodd y Bwrdd: DDERBYN yr Adroddiad Perfformiad.	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi
6.7	<u>Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</u> Rhoddodd Rowan Gardner, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch (RG) y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2025. • Nid oedd unrhyw broblemau i'w huwchgyfeirio. • Cafodd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ganmoliaeth am 20 mlynedd o WASPI gyda'r tîm yn ennill Tîm Preifatrwydd y Flwyddyn.	Derbyniwyd ar gyfer Sicrwydd	Dim i'w nodi

	Cyflwynwyd cyflwyniad Cod Ymarfer yr ICO – gan alluogi rhannu data moesegol yn strategol. Am ragor o wybodaeth am Bwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch IGDC dilynwch y ddolen yn y teitl neu fel arall sganiwch y cod QR canlynol.  Penderfynodd y Bwrdd: DERBYN yr Adroddiad Uchafbwyntiau Llywodraethu Digidol a Diogelwch er SICRWYDD		
6.8	<u>Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Fforwm Partneriaeth Lleol</u> Rhoddodd Paul Evans, Cyd-gadeirydd y Fforwm Partneriaeth Lleol (PE), ddiweddariad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2025. - Ni fu unrhyw uwchgyfeiriadau. - Dangosodd perfformiad y gweithlu gofnod absenoldeb oherwydd salwch gwell. - Derbyniwyd diweddariadau ar y Llwyfan Dysgu Digidol a'r Bartneriaeth Gymdeithasol. - Derbyniwyd diweddariad ar ystadau (Technium 2). - Trafodwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2026-27. Am ragor o wybodaeth am Fforwm Partneriaeth Lleol IGDC, dilynwch y ddolen yn y teitl neu fel arall sganiwch y cod QR canlynol.  Penderfynodd y Bwrdd: DDERBYN Adroddiad Uchafbwyntiau Fforwm Partneriaeth Lleol er SICRWYDD	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w Nodi
6.9	Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth Ruth Glazzard, Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth Penderfynodd y Bwrdd: DDERBYN Adroddiad Uchafbwyntiau'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth er SICRWYDD	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi
RHAN 7 – MATERION I GLOI			
7.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill Ni chodwyd unrhyw eitemau i'w trafod.	Trafodwyd	Dim i'w nodi

7.2

Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf:

Dydd Iau 26 Mawrth 2026

Daeth y cyfarfod i ben am 14:05

Nodwyd

Dim i'w
nodi